# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Y Cyngor, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 13 Medi 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Meirick Davies, Peter Evans, Alan James (Vice-Chair), Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Joe Welch (Chair), Emrys Wynne and Mark Young

**Arsylwyr –** Y Cynghorydd Rhys Thomas

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Arweinydd Tîm – Tîm Lleoedd (SC); Rheolwr Datblygu (PM); Prif Swyddog Cynllunio (IW); Uwch Beiriannydd – Priffyrdd (MP); Swyddog Cynllunio (EO'C) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Tina Jones, Bob Murray, Merfyn Parry a/ac Peter Scott

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd Pat Jones – cysylltiad personol – Eitem 10 ar y Rhaglen

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi codi.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.*

## CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 11) -

Cyflwynwyd ceisiadau a oedd yn gofyn am benderfyniad y pwyllgor, ynghyd â dogfennau cysylltiedig.  Cyfeiriwyd hefyd at wybodaeth ategol hwyr a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen a oedd yn ymwneud â cheisiadau penodol.  Nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau i siarad yn gyhoeddus.

5 **CAIS RHIF 01/2016/1243 CA- SAFLE HEN GANOLFAN TECHNOLEG AC ADDYSG ALWEDIGAETHOL DINBYCH, LÔN GANOL, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais i ddymchwel hen adeiladau ysgol ar safle hen Ganolfan Technoleg ac Addysg Alwedigaethol Dinbych, Lôn Ganol, Dinbych.

Cododd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gwestiynau ynglŷn â mynediad i'r safle.

Mewn ymateb i'r Aelod Ward, y Cynghorydd Gwyneth Kensler, eglurodd swyddogion fod y cais yn gofyn i'r Cyngor am Ganiatâd Ardal Gadwraeth ac mae'r cais wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio. Bwriad hyn oedd caniatáu Aelodau i roi ystyriaeth i bryderon a godwyd gan CADW dros y bwriad i golli adeilad gwreiddiol yr ysgol yn 1903 os rhoddwyd caniatâd ar y telerau a geisiwyd.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Mark Young.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CANIATÁU'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

6 **CAIS RHIF 02/2017/0688 PF - 15 HAULFRYN, RHUTHUN**

Cyflwynwyd cais i greu mynedfa gerbydau a man parcio o flaen annedd yn 15 Haulfryn, Rhuthun.

Siaradodd y Cynghorydd Emrys Wynne (Aelod Lleol) o blaid y cais. Credai y byddai o fudd i'r ffordd bengaead a'r trigolion cyfagos. Cododd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies bryderon mewn perthynas â dŵr wyneb, gan ofyn a ellid defnyddio rhywbeth amgen i darmac i helpu amsugno dŵr wyneb. Mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, dywedodd y swyddogion bod y safle eisoes yn cynnig palmant gyda systemau draenio i reoli lefelau'r dŵr. Hysbysodd y Prif Swyddog Cynllunio yr aelodau ei bod o fewn eu grym i gynnwys amod yn y cais yn nodi bod rhaid defnyddio arwyneb mân-dyllog o fewn ffin y plot er mwyn helpu amsugno dŵr dros ben.

**Cynnig -** Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne argymhelliad y Swyddog i ganiatáu'r cais, gan gynnwys yr amod o ddarparu arwyneb mân-dyllog yn ardal y ffin, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Evans**.**

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 13
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CANIATÁU'R*** *cais, gan gynnwys yr amod ychwanegol, yn unol ag argymhelliad y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**7 CAIS RHIF 15/2017/0573 PF - TŶ MINFFORDD, ERYRYS, YR WYDDGRUG**

Cyflwynwyd cais i godi garej ddwbl ar wahân gyda llety ar y llawr cyntaf yn Nhŷ Minffordd, Eryrys, Yr Wyddgrug.

**Cynnig –** Cynigiodd y Cynghorydd Huw Jones y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog, gan gynnwys yr amod ychwanegol bod y garej yn cael ei godi er mwynhad deiliaid Tŷ Minffordd yn unig, ac nid fel llety byw hunangynhaliol.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO – 12
GWRTHOD – 5
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CANIATÁU'R** cais, gan gynnwys yr amod ychwanegol, yn unol ag argymhelliad y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**8 CAIS RHIF 16/2017/0628 PF - TYN Y CELYN, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD RHUTHUN**

Cyflwynwyd cais i ddymchwel yr annedd a thai allan presennol a chodi annedd arall yn eu lle yn Nhyn y Celyn, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

Eglurodd y Rheolwr Datblygu bod asiant yr ymgeisydd wedi gofyn am i'r cais gael ei ohirio er mwyn iddo gael digon o amser i gasglu gwybodaeth mewn ymateb i sylwadau Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys am y cais.

**Cynnig –** Cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies y dylid gohirio'r cais, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Mark Young.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID GOHIRIO - 14
YN ERBYN GOHIRIO - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** gohirio'r cais i'w drafod rhywbryd eto.*

**9 CAIS RHIF 43/2017/0541 PF - LINDEN CLOSE, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais i wneud newidiadau ac estyniadau i annedd yn 1 Linden Close, Prestatyn.

**Trafodaeth gyffredinol -** Croesawodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Lleol) y diwygiadau i amod 3 y cais fel y manylir arnynt yn yr wybodaeth ategol. Mynegodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bryderon y byddai'r balconi yn groes i gymeriad yr ardal ac y byddai'n effeithio ar breifatrwydd eiddo cyfagos. Ategodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies y pryderon a godwyd o ran y trigolion cyfagos.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau, eglurodd y Swyddog Cynllunio bod amod 3 yr argymhelliad yn cynnwys codi sgriniau gwydr cymylog i leihau'r posibilrwydd o edrych dros eiddo cyfagos.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Ellie Chard y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Peter Evans.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 12
GWRTHOD - 1
YMATAL - 2

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CANIATÁU'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**10 CAIS RHIF 45/2017/0335 PO – TIR GERLLAW 21 STANLEY PARK AVENUE, Y RHYL**

Datganodd y Cynghorydd Pat Jones gysylltiad personol (mae ei mab yn gyfaill i'r ymgeisydd).

Cyflwynwyd cais i ddatblygu 0.05ha hectar o dir drwy godi 1 annedd (cais amlinellol gan gynnwys mynediad, gosodiad a graddfa) ar dir ger 21 Stanley Park Avenue, Y Rhyl.

Siaradodd y Cynghorydd Brian Jones (Aelod Lleol) o blaid y cais, yn dilyn trafodaethau â thrigolion cyfagos oedd hefyd o blaid y datblygiad. Cytunodd y Cynghorydd Ellie Chard â barn y trigolion lleol o blaid y cais. Cafwyd crynodeb o hanes cefndirol y cais gan y Swyddog Cynllunio, a nododd bod yr ymgeisydd wedi caffael tir ychwanegol, oedd i gynnwys gardd y tu ôl i'r eiddo, Cynyddu maint safle'r cais a hygyrchedd.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Brian Jones**,** y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Alan James y datblygiad arfaethedig o safbwynt cynllunio.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CANIATÁU'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**11 RHIF Y CAIS 45/2017/0575 PF – 8/9 STRYD MARCHNAD, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i newid defnydd siop adwerthu dosbarth A1 i fod yn wasanaeth ariannol a phroffesiynol dosbarth A2 gydag ystafelloedd atodol yng nghefn rhif 8 yn 8/9 Stryd y Farchnad, y Rhyl.

Eglurodd y Swyddog Cynllunio fod adolygiad o ddisgrifiad y cais wedi cael ei gynnwys yn y papurau ategol i egluro mai bwriad y cynnig yw cyflwyno defnydd A1 i rif 8 Stryd y Farchnad ac i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Gyngor Tref y Rhyl.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Alan James argymhelliad y Swyddog i ganiatáu'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Pat Jones.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CANIATÁU'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

## 12 Y DIWEDDARAF AR APELIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad gwybodaeth yn darparu amlinelliad o benderfyniadau diweddar yr Arolygiaeth Gynllunio ar apeliadau cynllunio a gyflwynwyd yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan y Cyngor Sir. Roedd yr adroddiad gwybodaeth yn trafod y cyfnod o fis Medi 2016 hyd heddiw. Anogwyd yr aelodau i gysylltu'n uniongyrchol â swyddogion perthnasol y tu allan i'r cyfarfod os oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt am achosion penodol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad gwybodaeth.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:15 a.m.**